# Natur Drws Nesaf

## Asesiadau Risg

Rydych chi'n gwneud asesiad risg cyn i chi wneud unrhyw beth ac mae'n debyg nad ydych chi hyd yn oed yn sylweddoli eich bod chi'n ei wneud! Mae'n cyfeirio at yr hyn rydych chi'n ei feddwl cyn i chi wneud rhywbeth. Byddwch chi'n eu gwneud nhw drwy'r amser - cyn i chi groesi'r ffordd, er enghraifft. Gelwir asesiad risg nad ydych yn ei ysgrifennu, ac yn ei wneud yn eich pen, yn “asesiad risg deinamig”.

Y math arall o asesiad risg yw “asesiad risg ffurfiol”. Rydych chi'n ysgrifennu'r rhain i lawr ac yn eu cadw fel cofnod.


Mae gan bopeth ryw fath o risg. Peidiwch â phoeni os oes gan eich gweithgaredd risgiau. Bydd yr asesiad risg yn eich helpu i ganfod beth yw'r risgiau hynny, a beth allwch chi ei wneud yn eu cylch.

### Peryglon a risgiau

Mae perygl yn rhywbeth a allai achosi niwed.

Mae asesiad risg yn edrych ar yr holl beryglon, ac yn canfod pa mor niweidiol ydyn nhw. Mae hefyd yn canfod pa mor debygol yw hi y bydd y perygl yn digwydd. Byddai perygl sy'n debygol iawn AC yn niweidiol iawn yn rhy beryglus i'w wneud.

Rydym yn defnyddio “matrics” i sgorio peryglon. Gall y rhain gynnwys nifer wahanol o focsys, ond dyma fersiwn syml:




Os yw rhywbeth yn risg uchel (gallai eich lladd) AC yn debygol iawn – mae’r bocs yn goch. Os bydd rhywbeth yn y bocsys melyn, mae angen i chi benderfynu a allwch chi wneud y risg yn llai tebygol, neu'r niwed a achosir yn llai.

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund
Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Wildlife Trusts Wales

# Natur Drws Nesaf

Gelwir y pethau rydych chi'n eu rhoi ar waith i leihau'r risg neu wneud y niwed yn llai yn "fesurau rheoli".

## Dyma enghraifft:

Mae grŵp eisiau clirio darn o dir diffaith. Mae'n cynnal asesiad risg. Mae'n darganfod mai danadl poethion yw'r risgiau a defnyddio llifau cadwyn.

Pa mor debygol yw pigiadau danadl poethion? Tebygol iawn. Pa mor niweidiol ydyn nhw? Ddim yn niweidiol iawn. Ond oherwydd eu bod mor debygol, maent mewn bocs coch ar y matrics asesu risg. Felly, mae'r grŵp yn rhoi mesur rheoli yn ei le - mae'n rhoi menig i bawb. Nawr, mae pawb yn llawer llai tebygol o gael eu pigo.

Beth am ddefnyddio llifau cadwyn. Mae gan y grŵp un llif gadwyn. Beth yw'r niwed? Gallai hyn fod yn niweidiol iawn. Ond pa mor debygol ydyw o achosi niwed? Mae'r grŵp yn gweld mai dim ond un person sy'n cael defnyddio llif gadwyn a'i fod wedi'i hyfforddi'n addas. Mae ganddo'r holl offer diogelwch priodol. Mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd y bydd unrhyw beth yn mynd o'i le yn isel iawn - cyn belled â bod yr holl reolau'n cael eu dilyn.

## Y gwaith papur

Cadwch gopïau o'ch asesiadau risg. Gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u dyddio.

Oes gennych chi rywun sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch? Gall fod yn ddefnyddiol cael swyddogion cymorth cyntaf wedi'u hyfforddi hefyd. Os oes gennych chi Bolisi Iechyd a Diogelwch ysgrifenedig, gall hyn fod yn ddefnyddiol iawn pan fyddwch yn gwneud cais am arian neu'n dymuno llogi eiddo. Adolygwch eich polisi bob blwyddyn.

Cadwch "lyfr damweiniau". Os yw rhywun wedi brifo, ysgrifennwch am y digwyddiad, gyda manylion am sut cafodd ei anafu, a pha driniaeth a gafodd.

Cadwch restr o'ch holl offer a chadwch y llawlyfrau. Meddyliwch pa hyfforddiant sydd ei angen ar bobl i ddefnyddio'r offer, a'i ysgrifennu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrth bobl sut i ddefnyddio'r offer yn ddiogel, a chadwch gofnod o hynny.

Mae rhai sylweddau, fel teneuwyr paent, yn beryglus. Bydd angen i chi eu defnyddio'n gywir a'u storio'n ddiogel. Daw hyn o dan reol o'r enw "Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd" (neu CoSHH) a gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth gan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch.

Jiwbilî Platinwm y Frenhines 2022
Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund
The Queen's Platinum Jubilee 2022
Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Wildlife Trusts Wales

# Natur Drws Nesaf

## Y gyfraith

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn diogelu pobl sy’n gwneud gwaith am dâl, ond mae hefyd yn cael ei “argymell yn gryf” bod grwpiau gyda gwirfoddolwyr yn dilyn y rheolau hefyd. Mae hyn yn golygu darparu’r canlynol:

- Offer diogel
- Sylweddau diogel
- Yr wybodaeth a'r hyfforddiant cywir
- Lle diogel i weithio

## Pethau eraill i feddwl amdanynt

Mae’n rhaid i rywfaint o waith gydag oedolion a phlant agored i niwed gael ei wneud gan rywun sydd ag “archwiliad cofnod troseddol manylach.” Edrychwch ar ein gwybodaeth diogelu.

Os ydych chi'n darparu bwyd a diod mewn digwyddiad, rhaid i chi sicrhau ei fod yn ddiogel i'w fwyta a'i fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelwch Bwyd.

Edrychwch hefyd ar ein gwybodaeth am Yswiriant ar gyfer Grwpiau.

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund
Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Wildlife Trusts Wales